Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2025 Rhif 175 (Cy. 37) (C. 7)**

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd 2021 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dwyn i rym adran 79 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (p. 30) ("y Ddeddf"). Y rhain yw'r ail reoliadau cychwyn sydd wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf.

Mae rheoliad 2 yn dwyn adran 79 o'r Ddeddf i rym ar 1 Mawrth 2025 i'r graddau y mae'n ymwneud ag ymgymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae adran 79 yn mewnosod adrannau newydd 94A i 94E yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991, er mwyn cyflwyno gofynion newydd ar ymgymerwyr carthffosiaeth i lunio, cyhoeddi a chynnal cynlluniau rheoli draenio a charthffosiaeth.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## NODYN AM Y RHEOLIADAU CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym yng Nghymru drwy reoliadau cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru cyn dyddiad y Rheoliadau hyn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 50 | 7 Mawrth 2022 (yn rhannol) | O.S. 2022/223 (Cy. 71) (C. 10) |
| Adran 60 | 7 Mawrth 2022 (yn rhannol) | O.S. 2022/223 (Cy. 71) (C. 10) |
| Adran 64 | 7 Mawrth 2022 (yn rhannol) | O.S. 2022/223 (Cy. 71) (C. 10) |
| Atodlen 4 | 7 Mawrth 2022 (yn rhannol) | O.S. 2022/223 (Cy. 71) (C. 10) |

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym yng Nghymru a Lloegr drwy reoliadau cychwyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn dyddiad y Rheoliadau hyn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 1 i 7 | 24 Ionawr 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Adrannau 8 i 15 | 24 Ionawr 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Adran 16 | 24 Ionawr 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Adrannau 17 a 18 | 10 Mai 2022 | O.S. 2022/518 (C. 21) |
| Adran 19 | 10 Mai 2022 (yn rhannol)<br><br>1 Tachwedd 2023 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | O.S. 2022/518 (C. 21)<br><br>O.S. 2023/381 (C. 18) |
| Adran 20 | 10 Mai 2022 | O.S. 2022/518 |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | | (C. 21) |
| Adran 21 | 1 Ebrill 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Adrannau 22 i 24 | 17 Tachwedd 2021 | O.S. 2021/1274 (C. 72) |
| Adran 25 | 24 Ionawr 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Adran 26 | 17 Tachwedd 2021 | O.S. 2021/1274 (C. 72) |
| Adran 27 | 24 Ionawr 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Adrannau 28 i 30 | 24 Ionawr 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Adrannau 31 i 41 | 24 Ionawr 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Adrannau 42 a 43 | 24 Ionawr 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Adrannau 44 i 47 | 17 Tachwedd 2021 | O.S. 2021/1274 (C. 72) |
| Adran 57 | 17 Mai 2024 | O.S. 2024/639 (C. 40) |
| Adran 73 | 1 Mai 2022 (yn rhannol) | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Adrannau 74 i 77 | 17 Mai 2024 | O.S. 2024/639 (C. 40) |
| Adran 81 | 17 Mai 2024 (yn rhannol) | O.S. 2024/639 (C. 40) |
| Adran 81 | 1 Ionawr 2025 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | O.S. 2024/639 (C. 40) |
| Adran 82(2) | 17 Mai 2024 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | O.S. 2024/639 (C. 40) |
| Adrannau 100 a 101 | 17 Ionawr 2024 (yn rhannol) | O.S. 2024/44 (C. 4) |
| Adran 116 | 30 Medi 2022 (yn rhannol) | O.S. 2022/518 (C. 21) |
| Rhan 7 | 30 Medi 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Atodlen 12, Rhan 3 | 1 Mai 2022 | O.S. 2022/48 (C. 2) |
| Atodlen 17 | 30 Medi 2022 (yn rhannol) | O.S. 2022/518 (C. 21) |

Mae amryw o ddarpariaethau'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym o ran Lloegr gan O.S. 2021/1274 (C. 72), O.S. 2022/48 (C. 2), O.S. 2022/518 (C. 21), O.S. 2022/988 (C. 75), O.S. 2022/1266 (C. 100), O.S. 2023/381 (C. 18), O.S. 2023/1170 (C. 77), O.S. 2024/44 (C. 4) ac O.S. 2024/639 (C. 40).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 175 (Cy. 37) (C. 7)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd 2021 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2025

*Gwnaed* *16 Chwefror 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 147(4)(g) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd 2021 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2025.

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf yr Amgylchedd 2021.

**Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Mawrth 2025**

**3.** Daw adran 79 (cynlluniau rheoli draenio a charthffosiaeth) o'r Ddeddf i rym ar 1 Mawrth 2025, i'r graddau y mae'n ymwneud ag ymgymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

*Huw Irranca-Davies*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
16 Chwefror 2025

(**1**) 2021 p. 30.